UNDEB YR ATHRAWON
CYMRU

NASUWT THE TEACHERS' UNION

# ADRODDIAD YR AROLWG ATHRAWON CYFLENWI

Arolwg blynyddol o brofiadau 2024/25

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Cyfleoedd i gael gwaith | 4 |
| Ffyrdd o weithio | 5 |
| Argaeledd gwaith | 7 |
| Profiadau'r athrawon cyflenwi wrth wneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | 9 |
| Profiadau'r athrawon cyflenwi gyda'r ysgolion, y staff, y disgyblion a'r rhieni wrth wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | 10 |
| Darparu'r wybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi wrth iddynt dderbyn penodiad | 13 |
| Y cyfleusterau a'r amwynderau oedd ar gael i'r athrawon cyflenwi yn yr ysgolion lle cawsant waith | 15 |
| Problemau a phryderon, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch, oedd yn berthnasol i athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | 16 |
| Cyfraddau tâl athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | 16 |
| Y sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 | 19 |
| Pensiynau | 20 |
| Hyfforddiant a chymorth rheoli ymddygiad | 21 |
| Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru | 21 |
| Y ffyrdd gorau i Lywodraeth Cymru gefnogi athrawon cyflenwi yn y dyfodol | 22 |
| Casgliad | 23 |

## Cyflwyniad

Mae athrawon cyflenwi'n rhan annatod o'r system addysg. Heb athrawon cyflenwi, byddai llawer o ddisgyblion yn colli allan ar gael eu haddysgu gan athrawon ymroddedig a chymwysedig sy'n sicrhau bod ysgolion yn gallu parhau i ddarparu'r addysg y mae gan blant a phobl ifanc hawl iddi. Mae athrawon cyflenwi'n gwneud cyfraniad hanfodol i sicrhau safonau addysgol uchel i bob plentyn a pherson ifanc.


Nod arolwg blynyddol NASUWT o athrawon cyflenwi yng Nghymru yw archwilio profiadau newidiol athrawon cyflenwi, gan gynnwys unrhyw broblemau a thueddiadau.

Yn ystod 2024/25, gwnaethpwyd yr arolwg rhwng misoedd Gorffennaf a Medi.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi canfyddiadau'r arolwg o athrawon cyflenwi a wnaethpwyd yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 ac yn tynnu sylw at y profiadau a gafodd athrawon cyflenwi yn ystod y flwyddyn hon.

## Cyfleoedd i gael gwaith

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi pam yr oedden nhw wedi gwneud gwaith cyflenwi. Dyma'r pum prif reswm a nodwyd gan yr athrawon cyflenwi:




> *"Mae nifer o asiantaethau ac ysgolion yn dweud bod yr ysgol yn chwilio am oruchwyliwr cyflenwi yn unig, ond wedyn maen nhw'n disgwyl i'r person addysgu."*

Pan ofynnwyd iddynt pa fanteision/anfanteision eraill sy'n gysylltiedig â bod yn athro cyflenwi, dyma'r tair mantais a nodwyd amlaf gan athrawon cyflenwi: mwy o ryddid a hyblygrwydd (32%), llai o lwyth gwaith (e.e. dim gwaith cynllunio/marcio/ysgrifennu adroddiadau) (26%), a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith (15%). Ar y llaw arall, dyma'r tair anfantais a nodwyd amlaf gan yr athrawon cyflenwi: ansicrwydd ynghylch eu swyddi ac ansicrwydd ariannol (30%), diffyg parch gan y disgyblion a'r staff (15%), a chyfraddau tâl gwael (13%).

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi a oeddent wedi gallu cael gwaith addysgu yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Dywedodd mwy na thraean (37%) na chawsent unrhyw drafferth cael gwaith cyflenwi, ond dywedodd bron i ddwy ran o bump (39%) eu bod wedi cael rhywfaint o drafferth cael gwaith. Ond, dywedodd ychydig dros bumed ran (22%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi cael trafferth ddifrifol cael gwaith cyflenwi, a dywedodd 2% nad oeddent wedi gallu cael unrhyw waith cyflenwi.

> *Gostyngiad eithriadol mewn gwaith yn ystod y flwyddyn academaidd hon.*

> *Mae'r gwaith i athrawon cyflenwi o ddydd i ddydd wedi gostwng yn sylweddol eleni. Defnyddir cynorthwywyr addysgu yn eu lle, ac mae rhai ysgolion yn dyblu dosbarthiadau.*

## Ffyrdd o weithio

Dywedodd ychydig dros un ymhob deg (11%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gweithio i un ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd 9% eu bod wedi gweithio i ddwy ysgol, dywedodd 15% eu bod wedi gweithio i dair ysgol, dywedodd un ymhob ugain (5%) eu bod wedi gweithio i bedair ysgol, a dywedodd ychydig dros bumed ran (21%) eu bod wedi gweithio i bum ysgol. Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (39%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gweithio i fwy na phum ysgol.

> *Er fy mod yn tueddu i gael fy anfon i'r un lleoedd, rwyf wedi gweithio mewn o leiaf naw ysgol.*

O'r athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd eu bod wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd ychydig yn llai na thri chwarter (73%) yr athrawon cyflenwi eu bod wedi cael gwaith drwy asiantaeth gyflenwi, er bod bron i bumed ran (19%) wedi dweud eu bod wedi cael gwaith fel athro cyflenwi'n uniongyrchol gan ysgol, a dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob deg (8%) eu bod wedi cael gwaith drwy gronfa athrawon cyflenwi'r awdurdod lleol.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio drwy asiantaeth yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (44%) eu bod wedi cofrestru gydag un asiantaeth er mwyn cael gwaith, dywedodd traean (33%) eu bod wedi cofrestru gyda dwy asiantaeth, dywedodd bron i un ymhob deg (9%) eu bod wedi cofrestru gyda thair asiantaeth, a dywedodd 9% arall eu bod wedi cofrestru gyda phedair asiantaeth. Dywedodd un ymhob ugain (5%) eu bod wedi cofrestru gyda phum asiantaeth.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio drwy awdurdod lleol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd bron i dri chwarter (74%) yr athrawon cyflenwi eu bod wedi cofrestru gydag un awdurdod lleol, dywedodd 13% eu bod wedi cofrestru gyda dau awdurdod lleol, a dywedodd bron i un ymhob deg (9%) eu bod wedi cofrestru gyda thri awdurdod lleol. Dywedodd bron i un ymhob ugain (4%) eu bod wedi cofrestru gyda phedwar awdurdod lleol.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi gweithio'n uniongyrchol i ysgol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd bron i ddwy ran o bump (39%) eu bod wedi eu cyflogi gan un ysgol, dywedodd ychydig yn llai na'u chwarter (23%) eu bod wedi eu cyflogi gan ddwy ysgol, a dywedodd 23% eu bod wedi eu cyflogi gan dair ysgol. Dywedodd 15% eu bod wedi eu cyflogi gan bum ysgol.

Dywedodd bron i chwarter (24%) yr athrawon cyflenwi fod hyn yn fwy o ysgolion nag yr oeddent wedi eu cofrestru â nhw yn y flwyddyn academaidd flaenorol, er bod 19% wedi dweud fod hyn yn llai, a dywedodd ychydig dros dair rhan o bump (61%) fod y nifer wedi aros ar yr un lefel.

Dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio hyd at 10 milltir i gael gwaith cyflenwi, dywedodd llawer mwy na thraean (36%) eu bod wedi teithio rhwng 11 a 20 milltir, dywedodd eu chwarter (25%) eu bod wedi teithio rhwng 21 a 30 milltir, dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) eu bod wedi gorfod teithio rhwng 31 a 40 milltir i gael gwaith cyflenwi, a dywedodd 7% eu bod wedi teithio rhwng 41 a 50 milltir. Dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi teithio rhwng 61 a 70 milltir, a dywedodd 1% eu bod wedi teithio rhwng 81 a 90 milltir.

> *"Po fwyaf eang yw'r rhwyd, y mwy o gyfleoedd sydd i gael gwaith. Fodd bynnag, nid yw nifer o asiantaethau'n hoffi hynny ac maen nhw fel arfer yn diystyru athrawon cyflenwi os ydyn nhw'n gweithio i asiantaeth arall neu os nad ydynt yn gweithio fel arolygwyr cyflenwi, sy'n rhywbeth y byddaf i bob amser yn gwrthod ei wneud."*

Dywedodd ychydig dros bumed ran (22%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod teithio ymhellach i gael gwaith nag y gwnaethant mewn blynyddoedd blaenorol.


Dywedodd tair rhan o bump (60%) o'r athrawon cyflenwi fod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith niweidiol ar y pellter y maen nhw'n barod i'w deithio i gael gwaith cyflenwi.

## Argaeledd gwaith

Gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi ymhle maen nhw wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r athrawon cyflenwi a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael gwaith cyflenwi mewn ysgolion cynradd, dywedodd traean (33%) eu bod wedi cael gwaith mewn ysgolion uwchradd, a dywedodd ychydig yn llai nag un ymhob deg (8%) eu bod wedi cael gwaith cyflenwi mewn ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion.

### Y mannau lle'r oedd athrawon cyflenwi wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25




O'r athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd eu bod wedi gallu cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd dwy ran o dair (66%) eu bod wedi gwneud y rhan fwyaf o'u gwaith cyflenwi ar sail ad hoc neu ddyddiol, dywedodd llawer mwy nag un ymhob deg (14%) eu bod wedi cael gwaith fel penodiadau wythnosol, a dywedodd 1% eu bod wedi cael penodiadau misol. Dywedodd 1% o'r athrawon cyflenwi fod y rhan fwyaf o'u gwaith yn benodiadau am dymor, a dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) fod y rhan fwyaf o'u gwaith addysgu'n benodiadau oedd yn hirach na thymor.


Pan ofynnwyd i'r athrawon cyflenwi am sawl diwrnod bob wythnos, ar gyfartaledd, y gallent gael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd 13% ohonynt eu bod wedi cael gwaith am un diwrnod yr wythnos, dywedodd ychydig dros bumed ran (22%) eu bod wedi cael gwaith am ddau ddiwrnod yr wythnos, a dywedodd 30% eu bod wedi cael gwaith am dri diwrnod yr wythnos. Dywedodd 15% o'r athrawon cyflenwi a gymerodd ran

yn yr arolwg eu bod wedi gallu cael gwaith am bedwar diwrnod yr wythnos, a dywedodd pumed ran (20%) eu bod wedi gallu cael gwaith am bum niwrnod yr wythnos. Ond, dywedodd mwy na naw allan o ddeg (92%) o'r athrawon cyflenwi eu bod eisiau gweithio rhwng tri a phum niwrnod yr wythnos.

Dywedodd mwy na hanner (53%) yr athrawon cyflenwi fod maint y gwaith cyflenwi wedi gostwng yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn academaidd flaenorol, ond dywedodd bron i un ymhob deg (9%) fod maint y gwaith cyflenwi wedi cynyddu. Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r ymatebwyr fod y cyfleoedd wedi aros ar yr un lefel.

> *Rwyf wrthi'n gweithio'n hirdymor fel cynorthwyydd addysgu un-i-un am fod gen i ofn na fydd gen i ddigon o waith addysgu cyflenwol mewn ysgolion da i dalu fy miliau.*

> *Mae ysgolion yn gostwng eu gwariant o ganlyniad i doriadau yn eu cyllidebau, ac maen nhw'n defnyddio goruchwylwyr cyflenwi mewnol. Mae rhai ysgolion yn ein cyflogi ni athrawon cyflenwi fel goruchwylwyr cyflenwi, er ein bod ni'n addysgu drwy gydol y dydd.*



**Profiadau'r athrawon cyflenwi wrth wneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25**

Gofynnwyd cwestiynau i'r athrawon cyflenwi ynglŷn â'u profiadau o weithio yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.


Er gwaethaf y ffaith ei fod yn ofyniad cyfreithiol ers mis Ebrill 2020 i athrawon cyflenwi dderbyn Dogfen Wybodaeth Allweddol gyda manylion am eu tâl ac unrhyw ddidyniadau cysylltiedig, a materion allweddol eraill, dim ond ychydig yn llai na thraean (32%) o'r athrawon cyflenwi hynny a gafodd waith drwy asiantaeth gyflenwi newydd a ddywedodd eu bod wedi derbyn y ddogfen hon, a dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (46%) nad oedden nhw'n gwybod a gawsent Ddogfen Wybodaeth Allweddol gan yr asiantaeth ai peidio.

Dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) o'r athrawon cyflenwi fod un o'r asiantaethau wedi gofyn iddynt wneud 'prawf am ddim' yn yr ysgol cyn cael gwaith â thâl.

> *"Cofrestrais â CoverStaff (drwy Eteach) a chynigiwyd hyn i mi ['prawf am ddim']. Gwrthodais y cynnig a dydw i ddim wedi clywed ganddynt ers hynny. Roedden nhw braidd yn wynebgaled a digywilydd."*

Dywedodd 15% o'r athrawon cyflenwi fod eu gwaith wedi cael ei ganslo ar benodiadau hirdymor penodol wrth gyrraedd, neu ar ôl cyrraedd, cyfnod cymhwyso 12 wythnos y Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth. Dywedodd ychydig dros dair rhan o bump (62%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi bod mewn sefyllfa lle'r oedd asiantaeth wedi eu bwcio ac yna wedi eu canslo nhw'n sydyn ac yn annisgwyl yn ystod y 12 mis diwethaf.

### Y wybodaeth a roddwyd i athrawon cyflenwi mewn Dogfen Wybodaeth Allweddol




## Profiadau'r athrawon cyflenwi gyda'r ysgolion, y staff, y disgyblion a'r rhieni wrth wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25

Dywedodd llai na dwy ran o bump (37%) o'r athrawon cyflenwi fod yr ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt bob amser, a dywedodd llai na thair rhan o bump (57%) fod yr ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo'n aml fod croeso iddynt. Ond, dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) mai yn anaml iawn y mae'r ysgol yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y staff addysgu yn yr ysgolion, dywedodd 30% o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd llai na thair rhan o bump (57%) eu bod wedi teimlo bod croeso iddynt yn aml gan y staff addysgu yn yr ysgolion. Ond, dywedodd mwy nag un ymhob deg (13%) o'r athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r staff addysgu yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

> *"Os ydych chi'n cwyno bod un o'r cynorthwywyr addysgu wedi eich trin chi'n wael neu'n eich tanseilio chi, sydd wedi digwydd yn gyson, rydych yn colli gwaith yno, neu rydych mewn perygl o golli gwaith yno."*

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion, dywedodd ychydig dros chwarter (27%) yr athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd llai na thair rhan o bump (57%) fod y cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.


Ond, dywedodd 14% o'r athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt, a dywedodd 2% nad ydy'r cynorthwywyr addysgu yn yr ysgolion byth yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y staff gweinyddol yn yr ysgolion, dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (41%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd eu hanner (50%) fod y staff gweinyddol yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Ond, dywedodd bron i un ymhob deg (9%) mai yn anaml iawn y mae'r staff gweinyddol yn yr ysgolion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Pan ofynnwyd iddynt faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y disgyblion yn yr ysgolion, dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) o'r athrawon cyflenwi eu bod yn teimlo bod croeso iddynt bob amser ganddynt, a dywedodd 55% fod y disgyblion yn yr ysgolion yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt. Ond, dywedodd ychydig dros chwarter (27%) yr athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y mae'r disgyblion yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Mewn perthynas â faint o groeso maen nhw'n ei deimlo gan y rhieni, dywedodd pumed ran (20%) o'r athrawon cyflenwi fod y rhieni'n gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt bob amser, a dywedodd ychydig mwy na hanner (51%) yr athrawon cyflenwi fod y rhieni'n gwneud iddyn nhw deimlo'n aml fod croeso iddynt. Ond, dywedodd pumed ran (20%) o'r athrawon cyflenwi mai yn anaml iawn y maen nhw'n teimlo bod croeso iddyn nhw gan y rhieni, a dywedodd bron i un ymhob deg (9%) nad ydyn nhw byth yn teimlo bod croeso iddynt gan y rhieni.

**Faint o groeso gawsoch chi wrth ddechrau mewn ysgol newydd yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25**




Dywedodd ychydig dros draean (34%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi wynebu cam-drin corfforol neu drais gan ddisgyblion wrth iddynt wneud gwaith cyflenwi, a dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (67%) eu bod wedi wynebu cam-drin llafar neu drais gan ddisgyblion wrth iddynt wneud gwaith cyflenwi.

Dywedodd ychydig yn llai na naw allan o ddeg (89%) athrawon cyflenwi eu bod wedi rhoi gwybod am y digwyddiad(au) i rywun yn yr ysgol; ond, dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) o'r rheiny a roddodd wybod am y digwyddiad na chymerwyd unrhyw gam gweithredu yn erbyn y disgybl, a dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (44%) nad oedden nhw'n gwybod neu na roddwyd gwybod iddynt a gymerwyd cam gweithredu ai peidio.

> *Roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn ymdrin yn dda â digwyddiadau o'r fath. Rydw i'n rhoi gwybod am broblemau bob amser am fod disgyblion yn ymateb yn well os ydyn nhw'n gweld eich bod chi'n ymgysylltu â strwythur yr ysgol.*

> *Doedd gan un o'r ysgolion yn arbennig ddim diddordeb mewn bod yn gefn i mi. Rhoddwyd terfyn ar bythefnos o waith heb unrhyw esboniad.*

## Darparu'r wybodaeth allweddol i athrawon cyflenwi wrth iddynt dderbyn penodiad

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd mwy na'u hanner (53%) na chawsent yr asesiad risg cyffredinol ar gyfer yr ysgol, a dywedodd 15% nad oedden nhw'n siŵr.

Dywedodd llai na dwy ran o bump (37%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion y trefniadau oedd yn eu lle ar gyfer cadw athrawon cyflenwi'n ddiogel wrth gyrraedd y gweithle a rhoi gwybod eu bod yn bresennol, a dywedodd 7% o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion le i fynd a phwy i fynd atynt i roi gwybod eu bod wedi cyrraedd bob dydd, gan gynnwys manylion y broses o gofrestru.

Dywedodd 70% o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion yr hylif diheintio dwylo sydd ar gael, a sut i gael gafael arno, a dywedodd ychydig dros ddwy ran o dair (68%) na chawsent fanylion y trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod ystafelloedd dosbarth a mannau gweithio'n cael eu hawyru'n dda.

Dywedodd chwarter (25%) yr athrawon cyflenwi na chawsent fanylion unrhyw berson cyswllt dynodedig, os bydd unrhyw gwestiwn, problem neu argyfwng yn codi.

Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i godi unrhyw bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch, a dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (41%) na chawsent fanylion ynglŷn â sut i alw am gymorth, gan gynnwys cymorth cyntaf. Ymhellach, dywedodd saith allan o ddeg (70%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion yr ystafell cymorth cyntaf agosaf, neu'r man priodol agosaf.

Dywedodd 46% o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion cynlluniau gwacáu'r ysgol os byddai tân, gan gynnwys gweithdrefnau a llwybrau dianc, pan oedden nhw'n gwneud gwaith mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent daith o amgylch safle'r ysgol, gan nodi'r ystafelloedd lle byddent yn addysgu wrth iddynt wneud gwaith cyflenwi yn yr ysgol.

Dywedodd ychydig dros bumed ran (22%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent, pan oedden nhw'n gwneud gwaith mewn ysgolion, gopi o'r amserlen sy'n nodi egwyliau ac amseroedd cinio, yn ogystal â'r hyn a ddisgwylir gan y staff yn ystod cyfnodau o'r fath.

Dywedodd ychydig yn llai na dwy ran o bump (38%) o'r ymatebwyr na chawsent, pan oedden nhw'n gwneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, fanylion y broses gofrestru a'r hyn a ddisgwylir gan y disgyblion o ran symud yn briodol o amgylch safle'r ysgol rhwng gwersi, yn ystod egwyliau ac amseroedd cinio, ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Mewn perthynas â'r gwaith addysgu, dywedodd 46% o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar wybodaeth berthnasol am y cynlluniau gwaith ar gyfer y pynciau y bydd disgwyl iddynt eu haddysgu, a dywedodd 45% na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar y deunyddiau addysgu perthnasol.

> “*Derbyniais yr holl wybodaeth uchod ar gyfer y penodiad tymor hir; ond ychydig iawn o wybodaeth am yr ysgolion a dderbyniais ar benodiadau tymor byr neu ddyddiol.*”

Yn ogystal, dywedodd llawer mwy na chwarter (29%) yr athrawon cyflenwi na chawsent fanylion ynglŷn â sut i gael gafael ar gyfrifiaduron, gyda'r manylion mewngofnodi a'r camau gweithredu i'w cymryd ar ddiwedd y diwrnod ysgol, a dywedodd llawer mwy na'u hanner (56%) na chawsent fanylion unrhyw adnoddau (megis ysgrifbinnau) y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt eu darparu.


Dywedodd tair rhan o bump (60%) o'r ymatebwyr na chawsent restr o'r disgyblion sydd yn y dosbarth(iadau) y byddent yn eu haddysgu, gan gynnwys manylion unrhyw gyflyrau meddygol, problemau ymddygiad, neu anghenion addysgol arbennig ac anableddau (AAAA), a dywedodd ychydig dros dair rhan o bump (62%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion unrhyw ddisgyblion y gwyddys eu bod â'r potensial i fod yn dreisgar, ynghyd â manylion y ffordd y dylent gael eu rheoli.

Ymhellach, dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent bolisi'r ysgol ar reoli ymddygiad, gan gynnwys pwy i gysylltu â hwy wrth iddynt wneud gwaith yn yr ysgol.

Dywedodd 55% o'r athrawon cyflenwi na chawsent fanylion unrhyw ddigwyddiadau, cyfarfodydd neu weithgareddau penodol a fydd yn cael

eu cynnal yn ystod y penodiad, a dywedodd llawer mwy na hanner (54%) yr athrawon cyflenwi na chawsent fanylion y trefniadau ar gyfer cludiant i'r ysgol, fel y bo'n briodol, wrth iddynt wneud gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

### Esiamplau o'r wybodaeth allweddol nad oeddent ar gael i'r athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25




> *Does gan lawer ohonyn nhw ddim manylion mewngofnodi pan mae'r gwaith i gyd wedi'i osod ar Google Classroom. Mae'n rhaid i mi aros i un o'r cynorthwywyr addysgu gyrraedd i roi'r manylion mewngofnodi i mi. Mae hyn yn golygu fy mod i'n hwyr yn clywed beth yw manylion y diwrnod. Mae hyn yn rhwystredig pan fyddaf wedi cyrraedd yn fuan er mwyn paratoi'n dda.*

## Y cyfleusterau a'r amwynderau oedd ar gael i'r athrawon cyflenwi yn yr ysgolion lle cawsant waith

Pan ofynnwyd iddynt am gyfleusterau ac amwynderau oedd ar gael iddynt wrth wneud gwaith cyflenwi mewn ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd llawer mwy na hanner (54%) yr athrawon cyflenwi nad oedd caniatâd iddynt bob amser i fynd i ystafelloedd y staff pan oedden nhw ar gael, dywedodd mwy na pedair rhan o bump (83%) nad oedd y cyfleusterau bwyd a diod i'r staff ar gael iddyn nhw bob amser, a dywedodd ychydig dros bumed ran (22%) nad oedd toiledau/ymolchfeydd ar gael iddyn nhw bob amser. Dywedodd mwy na thair rhan o bump (63%) o'r athrawon cyflenwi nad oedd caniatâd iddyn nhw barcio yn y maes parcio bob amser.

Pan ofynnwyd iddynt am y penodiadau a gawsent yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd llawer mwy na dwy ran o bump (46%) o'r athrawon cyflenwi fod person cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw drwy gydol yr amser, ond dywedodd 29% fod person cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw am rywfaint o'r amser. Dywedodd chwarter (25%) yr athrawon cyflenwi nad oedd unrhyw berson cyswllt dynodedig ar gael iddyn nhw.

**Dywedodd 83% o'r athrawon cyflenwi nad oedd y cyfleusterau bwyd a diod i'r staff ar gael iddyn nhw bob amser pan oedden nhw'n gwneud gwaith cyflenwi.**

> *Rwy'n cael fy nhrin yn yr un ffordd ag aelod parhaol o staff.*

### Problemau a phryderon, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch, oedd yn berthnasol i athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25

Dywedodd traean (35%) o'r athrawon cyflenwi nad oeddent yn teimlo bod unrhyw broblemau neu bryderon a godwyd ganddynt yn cael eu cymryd o ddifrif, a dywedodd 17% nad oedden nhw'n gwybod.

> *Yr agwedd a geir gan rai pobl yw bod disgyblion yn teimlo bod cael athrawon cyflenwi'n torri ar eu trefn ddyddiol arferol a dydyn nhw ddim yn gallu ymdopi.*

Dywedodd ychydig mwy na hanner (52%) yr athrawon cyflenwi oedd wedi cael gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 eu bod yn pryderu am eu hiechyd a'u diogelwch pan oedden nhw'n gwneud gwaith cyflenwi mewn ysgolion, a dywedodd un ymhob deg (10%) eu bod yn teimlo y gallai eu gwaith gael ei ganslo neu y gallent gael eu cosbi am ddatgelu gwybodaeth bersonol am eu hiechyd a'u diogelwch (e.e. eu bod yn feichiog).

### Cyfraddau tâl athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25

Mewn perthynas â chyfraddau tâl, gofynnwyd i'r athrawon cyflenwi hynny a lwyddodd i gael gwaith drwy un o'r asiantaethau oedd wedi eu cofrestru gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol, a oedden nhw wedi derbyn tâl oedd yn gyfwerth â phwynt cyflog M2 o leiaf (sef £166.33 ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25).


Dywedodd ychydig dros dri chwarter (76%) yr athrawon cyflenwi eu bod wedi derbyn tâl oedd yn gyfwerth â phwynt cyflog M2 o leiaf, ond dywedodd 16% nad oeddent wedi derbyn tâl cyfwerth.

> *Weithiau byddwn i, ond yn aml iawn maen nhw'n dweud wrthyf y byddaf ar gyfradd dâl arolygwr cyflenwi am mai dyna'r cyfan y gall ysgol ei gynnig. Y gwir yw eu bod nhw'n ein cyflogi ni am y nesaf peth i ddim.*

> *Cefais £180 y dydd, oedd yn cynnwys tâl gwyliau.*

O'r athrawon cyflenwi hynny na chawsent eu talu'n unol â'r trefniadau a osodwyd gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd 17% eu bod wedi cael eu talu rhwng £51 a £119 y dydd ar gyfer penodiadau, dywedodd traean (33%) eu bod wedi cael eu talu rhwng £120 a £149 y dydd, a dywedodd 33% arall eu bod wedi cael eu talu rhwng £150 a £199 y dydd ar gyfer penodiadau.


Dywedodd 17% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi derbyn tâl o £200 y dydd neu fwy ar gyfer penodiadau.



Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (42%) o'r athrawon cyflenwi fod y cyfraddau tâl a gawsent yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 yr un fath â'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol, ond dywedodd bron i bumed ran (19%) fod y cyfraddau tâl a gawsent yn is na'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Dywedodd bron i ddwy ran o bump (39%) fod y cyfraddau tâl a gawsent yn uwch na'r rheiny y gallent eu hennill yn y flwyddyn academaidd flaenorol.

Pan ofynnwyd i'r athrawon cyflenwi a oedd gan yr asiantaethau yr oeddent wedi gweithio iddynt yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, derfyn uchaf mewn perthynas â'u taliadau, dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) o'r athrawon cyflenwi fod ganddynt derfyn uchaf o'r fath.

**Dywedodd yr athrawon cyflenwi fod eu hasiantaeth(au) wedi gwneud y canlynol i'w cyfradd dâl yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25:**




> *Mae wedi ei gyfyngu i £166 y dydd, er bod gen i brofiad UPS3.*

**Dywedodd dim ond 17% o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gallu negodi neu sicrhau cynnydd yn eu cyfradd ddyddiol gydag asiantaeth(au) cyn derbyn gwaith cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.**

**Dywedodd 16% o athrawon llanw eu bod yn gallu sicrhau mwy o arian wrth weithio drwy awdurdod lleol neu'n uniongyrchol gydag ysgol o'i gymharu â gwaith cyflenwi drwy asiantaeth.**


## Y sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25

Gofynnwyd cwestiynau i'r athrawon cyflenwi ynglŷn â'u sefyllfa ariannol yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Dywedodd mwy na dwy ran o bump (43%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi canfod gwaith mewn meysydd eraill y tu allan i addysgu yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25. Dywedodd mwy na pedair rhan o bump (84%) ohonynt nad oedd y gwaith a gawsent y tu allan i addysgu wedi darparu'r un lefel o incwm ariannol ag y byddent wedi ei derbyn os bydden nhw wedi gallu cael gwaith addysgu.

Dywedodd bron i bumed ran (19%) o'r athrawon cyflenwi eu bod wedi gorfod gwneud cais am ryw fath neu'i gilydd o fudd-dâl y wladwriaeth (e.e. Credyd Cynhwysol) yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, a dywedodd 58% eu bod wedi wynebu caledi ariannol fel athro cyflenwi dros yr un cyfnod.

**Dywedodd 58% o'r ymatebwyr eu bod wedi wynebu caledi ariannol fel athro cyflenwi.**



**Dywedodd bron i bedwar allan o bump (78%) o'r athrawon cyflenwi a ymatebodd i'r arolwg fod gwneud gwaith cyflenwi, a pheidio gallu cael swydd barhaol, wedi cael effaith niweidiol ar eu gallu i wneud penderfyniadau arwyddocaol yn eu bywydau.**

> *Roedd yn rhaid i mi fenthyca gan fy nheulu a defnyddio fy nghynilion I GYD.*

> *Anaml iawn y byddaf yn troi fy ngwres ymlaen yn ystod y gaeaf, am fy mod yn ceisio peidio gwario mwy nag rwy'n ei ennill. Rwy'n bwyta'n syml ac yn siopa mewn siopau elusen. Rydw i wedi edrych ar gyfleoedd gwaith eraill, ond rwy'n rhy hen i ddechrau ar rywbeth newydd.*

## Pensiynau

Er bod y ddeddfwriaeth yn atal athrawon cyflenwi sy'n gweithio i asiantaeth gyflenwi rhag talu i mewn i'r Cynllun Pensiwn Athrawon, dywedodd ychydig dros bedair rhan o bump (82%) eu bod yn dal yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Dywedodd ychydig dros eu chwarter (26%) eu bod yn aelodau gweithredol ar hyn o bryd, dywedodd bron i ddwy ran o bump (39%) eu bod yn aelodau gohiriedig, a dywedodd ychydig yn llai na phumed ran (18%) eu bod yn derbyn eu pensiwn yn barod.

O'r athrawon cyflenwi hynny a nododd nad oeddent yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, dywedodd 29% nad oeddent yn aelodau o unrhyw gynllun pensiwn arall.

> *Rydw i'n aelod o NEST – maen nhw'n drychinebus a ddim hanner cystal â'r Cynllun Pensiwn Athrawon o ran pensiwn cronnus.*

> *Cynigir y cynllun drwy NEST sydd ddim hanner cystal â'r Cynllun Pensiwn Athrawon. Byddai'n braf gallu parhau i ychwanegu at fy Nghynllun Pensiwn Athrawon wrth wneud gwaith cyflenwi.*

## Hyfforddiant a chymorth rheoli ymddygiad

Dywedodd dwy ran o bump (40%) o'r athrawon cyflenwi na chawsent unrhyw ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn ystod y 12 mis diwethaf.

O'r athrawon cyflenwi hynny oedd wedi cael cyfleoedd DPP, cawsent yr hyfforddiant yn bennaf drwy gyfrwng asiantaethau cyflenwi (83%), roeddent wedi talu amdano eu hunain (14%), gan eu hundebau llafur (14%), neu gan yr ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt (12%).

**Dywedodd 40% o'r athrawon cyflenwi na chawsent unrhyw gyfleoedd DPP.**

Wrth sôn am gymryd rhan mewn diwrnodau hyfforddiant mewn swydd (HMS) a ddarparwyd gan ysgolion yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25, dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) o'r athrawon cyflenwi fod pob un o'r ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt wedi gofyn iddynt gymryd rhan mewn diwrnodau HMS, ond dywedodd ychydig dros un ymhob deg (12%) fod rhai o'r ysgolion wedi gofyn iddynt gymryd rhan mewn diwrnodau HMS.

Dywedodd ychydig dros bedair rhan o bump (82%) o'r athrawon cyflenwi na ofynnwyd iddynt gymryd rhan mewn unrhyw ddiwrnodau HMS a ddarparwyd gan yr ysgolion yr oeddent wedi gweithio ynddynt.

> *Mae'r ysgol yr ydw i'n gweithio ynddi ar benodiad tymor hir wedi gwrthod gadael i mi gael DPP ar ddiwrnodau HMS. Mae ysgolion blaenorol wedi caniatáu ac wedi annog hynny.*

## Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru

Dywedodd ychydig dros draean (35%) o'r athrawon cyflenwi nad oeddent yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r gorau i'r syniad o Bwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru, a dywedodd ychydig dros un ymhob ugain (6%) nad oedden nhw'n gwybod.

Pan ofynnwyd iddynt am eu barn ynghylch penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i'r cynllun o gael Pwll Cyflenwi Cenedlaethol Cymru, roedd bron i saith allan o ddeg (69%) o'r athrawon cyflenwi naill ai'n anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â phenderfyniad Llywodraeth Cymru.


*Byddai pwll cyflenwi cenedlaethol wedi galluogi i ni gael cyfradd dâl uwch, ac o bosib wedi caniatáu i ni ddychwelyd i'r Cynllun Pensiwn Athrawon.*

**Dywedodd ychydig yn llai na hanner (48%) yr athrawon cyflenwi nad oeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin gydag urddas a pharch.**

*Mae eleni wedi bod yn siomedig. Rydw i wedi mwynhau gwneud gwaith cyflenwi ers i mi adael fy swydd barhaol yn 2020, ond nawr rwy'n gorfod chwilio am opsiwn arall am fod ysgolion yn cael trafferth gyda'u cyllidebau ac yn defnyddio staff mewnol i gyflenwi – gan olygu ei bod hi'n rhy anodd gwneud cynlluniau ariannol.*

*Ddim o gwbl. Rydych chi'n teimlo fel tegan yn eu dwylo nhw, yno i lenwi bwlch. Maen nhw'n rhoi gwybodaeth sylfaenol i chi ac eto rydych chi'n gorfod dyfalu drwy'r amser, heb wybod yn union beth sy'n dod nesaf. Mae'r gwaith cyflenwi sy'n cael ei adael i chi'n wael iawn ac yn annigonol. Dydych chi'n methu cael gafael ar siartiau dosbarth i wobrwyo neu gosbi disgyblion – felly rydych yn teimlo eich bod mewn sefyllfa wan. Ac, ar ben hynny oll, rydych bellach yn cael eich cyflogi am dâl is! Fyddai ysgolion ddim yn gallu gweithredu heb ein gwaith ni.*

**Y ffyrdd gorau i Lywodraeth Cymru gefnogi athrawon cyflenwi yn y dyfodol**



## Casgliad

Mae canfyddiadau'r arolwg o athrawon cyflenwi'n pwysleisio'r rôl hanfodol y mae athrawon cyflenwi wedi ei chwarae'n barhaus o ran cynnal darpariaeth addysg mewn ysgolion yng Nghymru yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25.

Fodd bynnag, mae'r arolwg hwn yn awgrymu bod y profiadau a gafodd athrawon cyflenwi yn ystod blwyddyn academaidd 2024/25 yn amrywio, gyda chynnydd amlwg yn y nifer o'r athrawon cyflenwi hynny a ddywedodd eu bod wedi cael trafferth ddifrifol cael gwaith a nifer uwch yn derbyn cynigion i wneud rolau eraill, megis gwaith goruchwylwyr cyflenwi (sydd yn aml yn talu ar gyfraddau is). Mae'n destun siom ei bod hi'n ymddangos bod disgwyl i nifer cynyddol o athrawon cyflenwi wneud 'prawf am ddim' cyn cael gwaith.

Hefyd, gwelwyd newid ym maint a natur y gwaith sydd ar gael i athrawon cyflenwi yng Nghymru, a chynnydd yn y nifer o'r athrawon cyflenwi sy'n gwneud gwaith cyflenwi ar sail ad hoc neu ddyddiol yn hytrach na chael penodiadau tymor hwy. Er hynny, mae'n ymddangos bod mwy o hyn yn cael ei sicrhau'n uniongyrchol â'r ysgolion a/neu â chronfeydd athrawon cyflenwi a gedwir gan awdurdodau lleol.

O ystyried hynny, nid yw'n syndod bod cynnydd yn y nifer o athrawon cyflenwi a ddywedodd eu bod wedi cofrestru gyda nifer fawr o asiantaethau, awdurdodau lleol neu ysgolion i gael gwaith, yn ogystal â chynnydd yn y nifer o'r athrawon cyflenwi hynny sydd wedi gorfod teithio ymhellach i gael gwaith cyflenwi.

O ran yr elfen hollbwysig o dâl, mae'n destun pryder bod dirywiad yn y nifer o athrawon cyflenwi sy'n gallu cael cyfraddau dyddiol uwch, a dim ond cyfraddau tâl rhwng £51 a £149 y dydd y gall y mwyafrif llethol o athrawon cyflenwi eu cael am wneud gwaith cyflenwi. Mae'r sefyllfa hon wedi ei gwaethygu gan y ffaith bod rhai o'r athrawon cyflenwi'n dweud bod llai o allu ganddynt yn awr i negodi cynnydd yn eu tâl o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, am fod mwy o asiantaethau'n ystyried gosod terfyn uchaf ar eu tâl.

O ganlyniad, mae'n wir o hyd bod cyfran sylweddol o'r athrawon cyflenwi'n cael eu talu ar sail cyfraddau sy'n anghyfatebol â lefel eu profiad ac arbenigedd. Yn wir, mae nifer o athrawon cymwysedig a phrofiadol ar gyfraddau tâl sydd wedi aros yr un fath ers blynyddoedd, ac mae rhai o'r

cyfraddau dyddiol a dderbyniant wrth wneud gwaith cyflenwi'n is na'r gyfradd dâl ar gyfer athrawon heb gymhwyso.

O ystyried hynny, mae'n siomedig ond nid yn syndod gweld bod rhai athrawon cyflenwi'n dal i fod yn y sefyllfa o orfod gwneud penderfyniadau anodd ynglŷn â'u gwariant, yn cynnwys cynnydd yn y nifer sy'n dweud eu bod yn gorfod gohirio talu eu biliau neu fynd i ôl-ddyled ar eu morgais/rent.

Mae'n braf nodi bod canlyniadau'r arolwg yn 2024/25 yn dangos bod nifer o gymunedau ysgol yn estyn croeso llawer cynhesach na hynny i athrawon cyflenwi, a bod nifer gynyddol o athrawon cyflenwi'n dweud bod yr ysgol, y staff, ac yn arbennig y disgyblion, yn aml yn gwneud iddyn nhw deimlo bod croeso iddynt.

Er gwaethaf hynny, mae canlyniadau'r arolwg yn 2024/25 yn dangos cynnydd yn y nifer o athrawon cyflenwi a ddywedodd bod ysgolion yn methu'n gyson â darparu gwybodaeth allweddol iddynt pan maen nhw dderbyn penodiadau, yn benodol mewn perthynas â gwybodaeth iechyd a diogelwch hanfodol, megis taith o amgylch safle'r ysgol, manylion cynlluniau gwacáu'r ysgol os bydd tân, a manylion y disgyblion sydd yn y dosbarthiadau y byddant yn eu haddysgu, gan gynnwys manylion unrhyw gyflyrau meddygol perthnasol, problemau ymddygiad, neu anghenion dysgu ychwanegol; pethau sy'n hanfodol bwysig i alluogi i athrawon cyflenwi gyflawni eu dyletswyddau'n ddiogel.

Nid yw'n syndod felly bod cynnydd wedi bod yn y nifer o athrawon cyflenwi a ddywedodd eu bod yn pryderu am eu hiechyd a'u diogelwch, ynghyd â gostyngiad yn y nifer o athrawon cyflenwi a ddywedodd eu bod yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Mae pobl yn pryderu bod yr anghysonderau hyn yn eu triniaeth yn cael effaith anghymesur ar athrawesau, athrawon anabl ac athrawon du a lleiafrifoedd ethnig, sy'n fwy tebygol o gael eu cyflogi fel athrawon cyflenwi.

Yn y cyd-destun hwn, mae canlyniadau'r arolwg yn 2024/25 yn cadarnhau'r ffaith bod angen brys am sicrhau 'gwell bargen' i athrawon cyflenwi, sy'n mynd i'r afael â'r diffygion systematig yn y system bresennol, ac sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu cyfraniad pwysig a sylweddol i'r system addysg yng Nghymru.